Rhif ymchwil gymdeithasol: 4/2026

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2026

# Adolygiad cwmpasu o ddangosyddion datblygiad plant a'r mesurau a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed

# Crynodeb Gweithredol

## 1. Cyflwyniad a chefndir

Mae'r blynyddoedd cynnar yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer datblygiad corfforol, gwybyddol, ieithyddol a chymdeithasol-emosiynol plant ac un o nodau craidd Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2022 yw bod plant a phobl ifanc yn cael "y dechrau gorau" mewn bywyd. Mae polisïau a rhaglenni sy'n cefnogi hyn yn cynnwys:

- Y 1,000 Diwrnod Cyntaf a Rhaglen Plant Iach Cymru
- Y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar
- Cwricwlwm i Gymru

Mae pob un o'r rhain yn anelu at gefnogi datblygiad plant. Fodd bynnag, er cydnabod ei bwysigrwydd, ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio un diffiniad unigol o ddatblygiad plant ar draws ei gwahanol feysydd polisi. At hynny, dangosodd gwaith ymgysylltu cychwynnol fwlch posibl mewn perthynas â mesurau datblygiad plant ar gyfer plant 2 i 11 oed. Felly, nodau'r adolygiad hwn yw:

- Cynhyrchu tystiolaeth ar bwysigrwydd dangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid allanol a'r defnydd effeithiol ohonynt

- Nodi a dogfennu dangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Asesu'n feirniadol nodweddion dangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Crynhoi tystiolaeth i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n diffinio datblygiad plant a'i gydrannau mewn gwahanol gyd-destunau

Roedd y dulliau yn cynnwys:

- cyfweliadau â 12 o randdeiliaid
- adolygiad desg systematig o ddangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Gweithdy rhanddeiliaid i arfarnu a thrafod y canfyddiadau yn feirniadol

# 2. Beth sy'n diffinio datblygiad plant a'i elfennau?

Mae datblygiad plant yn disgrifio'r gyfres o newidiadau sy'n digwydd mewn plentyn o'i genhedlu hyd at fod yn oedolyn. Fel y dengys ffigur 2.1, mae'r gwahanol newidiadau hyn fel arfer yn cael eu grwpio i “feysydd” datblygiad sy'n gorgyffwrdd, fel gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol a lleferydd, iaith a chyfathrebu. Deellir bod y newidiadau hyn yn ganlyniad i ryngweithiadau dynamig rhwng y plentyn a'i amgylchedd cyfagos.

**Ffigur 2.1: Enghraifft o feysydd datblygiad plant**




Fodd bynnag, er bod rhanddeiliaid a'r llenyddiaeth a adolygwyd yn cadarnhau'r diffiniad lefel uchel hwn o ddatblygiad plant, mae gwahaniaethau o hyd yn y pwyslais a roddir ar wahanol feysydd, grwpio gwahanol newidiadau mewn meysydd ac enwi meysydd. Yn fwy sylfaenol, mae'r adolygiad hefyd yn nodi gwahaniaeth cysyniadol yn y ffordd y mae datblygiad plant yn cael ei ddeall ar draws meysydd polisi yng Nghymru; a yw'n cael ei ddeall fel:

- proses linol: dilyniant o newidiadau y disgwylir i'r rhan fwyaf o blant fynd drwyddynt, lle mae gwyriad o'r norm hwn yn achos pryder
- proses luosogol: dilyniant o newidiadau sy'n wahanol o blentyn i blentyn, lle mae amrywiaeth y llwybrau yn cael ei ystyried yn naturiol ac yn normal, fel mathau eraill o amrywiaeth ffisiolegol neu gymdeithasol-ddiwylliannol

Nododd yr adolygiad fod model mwy llinol, normadol o ddatblygiad plant yn gyffredinol yn fwy priodol pan mai'r diben oedd:

- sgrinio i nodi materion penodol fel oedi mewn datblygiad
- mesur newidiadau ar lefelau system neu boblogaeth, sy'n anodd, os yw llwybr pob plentyn yn cael ei drin fel un unigryw ac yr un mor ddilys

Mewn cyferbyniad, nododd yr adolygiad fod model mwy lluosogol o ddatblygiad plant yn gyffredinol yn fwy priodol pan mai diben y mesur oedd:

- gwyliadwriaeth, monitro parhaus o ddatblygiad plentyn unigol neu
- asesu ffurfiannol i gefnogi cynnydd dysgwyr

Nododd yr astudiaeth hon hefyd (ond ni adolygodd) nifer o fesurau o ymddygiad neu ganlyniadau plant, fel arolygon y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) a Rhwydwaith Iechyd a Chyrhaeddiad Disgyblion Mewn Addysg Gynradd (HAPPEN). Mae'r ymddygiad neu'r canlyniadau hyn yn gysylltiedig â datblygiad plant, naill ai fel

- ffactorau sy'n cyfrannu at ddatblygiad plant, fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu
- ganlyniadau fel llesiant, y mae datblygiad plant yn cyfrannu atynt, ond nad ydynt ynddynt eu hunain yn fesurau datblygiad plant

# 3. Pwysigrwydd dangosyddion a mesurau datblygiad plant a'r defnydd effeithiol ohonynt

Mae'r blynyddoedd cynnar yn hanfodol ar gyfer datblygiad. Maent yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad plant yn y dyfodol a'u cyfleoedd bywyd, gan alluogi plant i ffynnu a chyflawni eu potensial drwy gydol eu bywydau. Mae cyflymder, maint a natur y datblygiad yn cael ei lunio gan y rhyngweithio dynamig rhwng y plentyn unigol a'i amgylchedd. Mae deall os, pryd a sut mae plant yn datblygu felly yn hanfodol er mwyn

- cefnogi cynnydd plant unigol
- llywio cynllunio, comisiynu a gwerthuso polisïau a rhaglenni sy'n cefnogi datblygiad plant ar lefelau systemau a phoblogaeth

Fodd bynnag, mae'r tensiwn hirsefydlog yn parhau rhwng y ffyrdd:

- y gall mesur gael canlyniadau anfwriadol drwy ystumio arfer, a all niweidio'r hyn sy'n cael ei fesur. Er enghraifft, os yw mesur yn golygu bod ymarferwyr yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei fesur yn hawdd ac yn systematig, yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu ar ei gyfer. Mae'r risg hon weithiau yn cael ei disgrifio fel ‘taro'r targed, ond methu'r pwynt’
- y ffyrdd y gall peidio â mesur yr hyn sy'n bwysig ar i blentyn unigol neu grwpiau o blant yng Nghymru, olygu bod hyn yn cael ei esgeuluso neu ei

ddadflaenoriaethu. Mae hyn yn adlewyrchu'r dywediad ‘ni allwch wella'r hyn na allwch ei fesur’ [Troednodyn 1]

Mae cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn dangos rhai o'r tensiynau hyn. Mae ei gyflwyno yn golygu nad yw data safonedig ar ddatblygiad plant bellach yn cael ei gasglu gan leoliadau addysg ar gyfer y rhai 3 i 11 oed, ar lefel genedlaethol neu systemau. Fel y mae Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu yn amlinellu “Diben asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi cynnydd dysgwyr unigol” ac mae'r defnydd o ddata asesu yn y gorffennol ar gyfer atebolrwydd wedi niweidio hyn. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mewn asesu gyda'r bwriad o wella cynnydd dysgwyr, ond wrth wneud hynny mae wedi lleihau'n sylweddol y swm hwnnw o wybodaeth sydd ar gael ar lefel system neu boblogaeth ar gynnydd dysgwyr.

Nodwyd y bylchau mewn data cenedlaethol a grëwyd gan y newidiadau hyn gan randdeiliaid fel gwendid allweddol yn ecosystem tystiolaeth datblygiad plant Cymru. Mae'r newidiadau hyn i asesu mewn lleoliadau addysg yn helpu i esbonio pam, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar, mae bwlch canfyddedig mewn data ar ddatblygiad plant 2 i 11 oed, er gwaethaf swm y data a gesglir gan wasanaethau iechyd ac addysg ar ddatblygiad y plant hyn.

# 4. Dilysrwydd, dibynadwyedd a chosteffeithiolrwydd mesurau datblygiad plant

Mae amrywiaeth y mesurau datblygiad plant yn ei gwneud yn anodd cyffredinoli amdanynt. Mae hefyd yn bwysig ystyried nid yn unig y mesur, ond hefyd y cyd-destun y caiff ei ddefnyddio ynddo, sut mae'n cael ei ddefnyddio a'i ddiben, wrth ystyried cwestiynau fel dilysrwydd, dibynadwyedd a chosteffeithiolrwydd. Er enghraifft:

- gall dilysrwydd a dibynadwyedd mesur fod yn gryf pan fydd yn cael ei ddefnyddio gyda rhai grwpiau neu boblogaethau, ond efallai na fydd mesur wedi'i brofi i'w ddefnyddio gyda grwpiau eraill (fel grwpiau lleiafrifol, neu grwpiau ag ieithoedd neu ddiwylliannau gwahanol)
- gall gwendid mewn samplu a/neu weinyddu offer amharu ar ddilysrwydd a dibynadwyedd mesur

---

[[1]] Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnig bod y mesuriad hwnnw'n galluogi dealltwriaeth, mae dealltwriaeth yn galluogi rheolaeth, ac mae rheolaeth yn angenrheidiol ar gyfer gwella.

- Mae costeffeithiolrwydd yn dibynnu ar gost mesur a'r defnydd o'r data y mae'n ei gynhyrchu. Felly, gellir ystyried bod hyd yn oed mesur costus iawn yn gost-effeithiol iawn, os yw'r mesurau yn cynhyrchu data a all gynyddu costeffeithiolrwydd rhaglenni (sydd fel arfer yn llawer mwy costus na'r mesurau eu hunain)

Er gwaethaf y cafeatau pwysig hyn, mae'n amlwg bod:

- cryfder y seiliau tystiolaeth sy'n sail i wahanol fesurau yn amrywio ac ar gyfer llawer o'r mesurau a nodwyd, prin, os o gwbl, oedd y drafodaeth am eu dilysrwydd a'u dibynadwyedd yn y llenyddiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn
- Mae costau casglu data systematig yn sylweddol

Mae costau casglu data yn creu cymhellion i ddefnyddio mesurau a data presennol lle y bo'n bosibl. Gallai hyn gynnwys datblygu cysylltu a rhannu data, ac mae rhanddeiliaid o'r farn bod hon yn ffordd bosibl o gynhyrchu tystiolaeth ar effaith rhaglenni blynyddoedd cynnar.

# 5. Casgliadau

Mae datblygiad plant yn disgrifio'r gyfres o newidiadau sy'n digwydd mewn plentyn o'i genhedlu hyd at fod yn oedolyn. Mae mesurau datblygiad plant yn cael eu defnyddio'n helaeth gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid allanol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a'r awydd i ddeall pa mor effeithiol y mae polisïau a rhaglenni yn sicrhau bod plant yn cael “y dechrau gorau” mewn bywyd.

Fodd bynnag, er gwaethaf pwysigrwydd datblygiad plant i bolisïau a thimau addysg, iechyd a'r blynyddoedd cynnar, nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio (nac nid oes ganddi) un diffiniad o ddatblygiad plant, na mesur o ddatblygiad plant. Mae'r adolygiad yn nodi bod amrywiaeth eang o fesurau yn cael eu defnyddio yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan adlewyrchu gwahaniaethau o ran:

- yr hyn sy'n cael ei fesur, gyda, er enghraifft, gwahanol fesurau sy'n canolbwyntio ar wahanol feysydd datblygiad plant
- sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur, gyda, er enghraifft, mesurau gwahanol yn defnyddio dulliau gwahanol, fel arsylwi neu holiaduron, ac yn defnyddio dulliau gwahanol gyda phlant o wahanol oedrannau
- pam mae datblygiad plant yn cael ei fesur, gyda, er enghraifft, gwahanol ddulliau o sgrinio, gwyliadwriaeth ac asesu ffurfiannol; gwahaniaethau sy'n rhannol yn

adlewyrchu dau gysyniad gwahanol o ddatblygiad plant: datblygiad fel proses linol neu luosogol

Mae cryfder seiliau tystiolaeth sy'n sail i wahanol fesurau hefyd yn amrywio. Mae hyn ynghyd â gwahaniaethau mewn gweithredu ac o ran y diben y defnyddir gwahanol fesurau, yn ei gwneud yn anodd cyffredinoli am eu costeffeithiolrwydd.

O ystyried amrywiaeth mesurau datblygiad plant, mae'r adolygiad yn nodi, wrth ddewis mesur, ei bod yn bwysig nodi'r canlynol:

- y cysyniad o ddatblygiad plentyn a diben mesur
- nodweddion mesurau sy'n ofynnol ar gyfer y cysyniad hwnnw a diben mesur
- nodweddion y plant i'w mesur (er enghraifft, o ran iaith ac oedran)

cyn gwneud penderfyniadau ynghylch pa fesurau a data presennol y dylid eu defnyddio, a/neu a oes angen offer a mesurau data newydd.

Awduron yr adroddiad: Dr Duncan Holtom, Rhodri Bowen ac Emma Preece

Pobl & Gwaith | People & Work

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, D., Bowen, R. a Preece, E. (2026). Adolygiad cwmpasu o ddangosyddion datblygiad plant a'r mesurau a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 4/2026.

Ar gael ar: [https://www.llyw.cymru/adolygiad-cwmpasu-o-ddangosyddion-mesurau-datblygiad-ddefnyddir-ar-gyfer-plant-2-i-11-oed](https://www.llyw.cymru/adolygiad-cwmpasu-o-ddangosyddion-mesurau-datblygiad-ddefnyddir-ar-gyfer-plant-2-i-11-oed)

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost tîm neu gangen: [ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru](mailto:ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-964-8